# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 9

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

**142 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol achosion neu ddosbarthiadau o achosion, gwahanol ardaloedd neu at wahanol ddibenion;

(b) i wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu yn ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthiadau o achosion yn unig;

(c) i wneud y gyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed ag y gwêl y person sy'n gwneud y gorchymyn neu'r rheoliadau yn dda.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) yn Rhan 1—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 2(1)(c), 3, 5(f), 6(3), 7(4), 8(f), 10(4)(d), 12(3)(d), 14(3), 20(7) neu 29(5);

(ii) rheoliadau a wneir o dan adran 19(2);

(b) yn Rhan 2—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 57(4), 59(3), 72, 80(5)(b)(i), 80(8) neu 81(4);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Cyffredinol. (See end of Document for details)*

(ii) rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) neu 86(1) a rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1 o Atodlen 2;

(c) yn Rhan 3, gorchymyn a wneir o dan adran 101 neu 109;

(d) yn y Rhan hon, rheoliadau a wneir o dan adran 144 sy’n diwygio neu’n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy’n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon ac eithrio gorchymyn a wneir o dan adran 40(7) yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy’n cynnwys gorchymyn a wneir o dan adran 80(5)(b)(ii) oni bai bod drafft o’r offeryn wedi ei osod gerbron, a’i gymeradwyo drwy benderfyniad—

(a) dau Dŷ’r Senedd, a

(b) Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 1 o Atodlen 2 oni bai bod drafft o’r offeryn statudol wedi ei osod gerbron dau Dŷ’r Senedd, a’i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.

(7) Nid yw’r adran hon yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 145 (cychwyn).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 142 mewn grym ar 17.9.2014, gweler **a. 145(1)(a)**

## 143 Ystyr awdurdod tai lleol

Yn y Ddeddf hon ystyr “awdurdod tai lleol” yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, ac mae ystyr estynedig iddo at ddibenion Rhan 2 (gweler adran 99).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 143 mewn grym ar 17.9.2014, gweler **a. 145(1)(b)**

PROSPECTIVE

## 144 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn angenrheidiol neu’n hwylus at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu o ganlyniad i roi effaith felly, cânt wneud y canlynol drwy reoliadau—

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, a

(b) unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, diddymu neu ddirymu (ymysg pethau eraill) unrhyw ddeddfiad.

(3) Yn yr adran hon ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y caiff ei ddeddfu neu ei wneud) a gynhwysir yn y canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan y canlynol—
   (a) Deddf Seneddol,
   (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf hon).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I3** A. 144 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(2)**

## 145 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn derbyn Cydsyniad Brenhinol—
   (a) adran 142;
   (b) adran 143;
   (c) yr adran hon;
   (d) adran 146.

(2) Bydd adrannau 132 i 136 yn Rhan 5 (Cyllid Tai) yn dod i rym ar ôl diwedd y cyfnod o 2 fis gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—
   (a) pennu gwahanol ddyddiau at wahanol ddibenion;
   (b) cynnwys y gyfryw ddarpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I4** A. 145 mewn grym ar 17.9.2014, gweler **a. 145(1)(c)**

## 146 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Tai (Cymru) 2014.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I5** A. 146 mewn grym ar 17.9.2014, gweler **a. 145(1)(d)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Cyffredinol.